# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)25-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 6 Hydref 2009

**Amser:** 8.30

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, y Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

David Melding, y Ceidwadwyr Cymreig

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Marc Wyn Jones, Clerc y Pwyllgor Busnes

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

1.1 Dywedodd y Llywydd bod ymddiheuriadau wedi dod i law gan Alun Cairns. Croesawodd y Pwyllgor David Melding, oedd yn dirprwyo ar ei ran yn unol â Rheol Sefydlog 10.42.

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)24-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 29 Medi 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Materion yn codi o'r cofnodion**

3.1 Dywedodd y Llywydd fod y cynnig i roi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn wedi cael ei dynnu'n ôl.

**4. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)25-09(p1)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 pm ddydd Mawrth na dydd Mercher.

4.2 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 6 a 7 Hydref 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)25-09(p2)**

4.3 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)25-09(p3)**

4.4 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser ar gyfer y dadleuon a ganlyn:

**Dydd Mercher 4 Tachwedd 2009 -**

Dadl ar adroddiad yr Is-bwyllgor Darlledu ar y diwydiant papurau newydd yng Nghymru (60 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cynaliadwyedd ar brif-ffrydio cynaliadwyedd o fewn portffolios y Gweinidogion (60 munud)

4.5 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes y Cynulliad.

4.6 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**5. Pwyllgorau**

**Cais gan yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod Pwyllgor ffurfiol ddydd Llun 12 Hydref 2009 - BC(3)25-09(p4)**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor Busnes gais yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig i gynnal cyfarfod ychwanegol ddydd Llun 12 Hydref o 5.15pm, i ystyried y cynigion cyllidebol drafft.

**6. Unrhyw fusnes arall**

Dywedodd y Llywydd y byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn cynnal rownd nesaf y balotau deddfwriaethol ddydd Mercher 14 Hydref.

6.2 Pan gynhaliwyd y rownd ddiwethaf o falotau, trafododd y Pwyllgor Busnes gais gan Alun Cairns i ganiatáu Aelodau a oedd wedi ennill balot eisoes i wneud cais arall. Yn yr achos hwnnw, ni chyflwynwyd unrhyw gynigion i'r Balot Mesurau a chytunwyd y dylid atal y Rheolau Sefydlog i ganiatáu hyn.

6.3 Ar 30 Mehefin, trafododd y Pwyllgor Busnes bapur yn amlinellu'r opsiynau ar gyfer mynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hwy. Cytunwyd na ddylid diwygio Rheol Sefydlog 23.10. Fodd bynnag, byddai'r Pwyllgor yn ystyried a fyddai'n addas atal y Rheolau Sefydlog bob tro y cynhaliwyd balot dilynol.

6.4 Nododd y Pwyllgor Busnes bod saith cynnig eisoes wedi cael eu cyflwyno ar gyfer y Balot Mesurau nesaf a chytunodd i atal y Rheolau Sefydlog y tro hwn. Cytunodd y Pwyllgor i adolygu'r trefniadau cyn y balot nesaf.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**